PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# POLISI & GWEITHDREFN AR GYFER APELIADAU AILRADDIO

| Adolygwyd | Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|
| 1. | 2022 | Proses apelio cylch ailraddio interim 2022 | Amherthnasol |
| 2 | 2024 | Newidiadau cosmetig wedi'u gwneud – er enghraifft – diweddaru terminoleg | Amherthnasol |
| 3. | | | |

| Swyddog Polisi | Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan bwy a'r Dyddiad | Asesu Effaith Cydraddoldeb a'r dyddiad |
|---|---|---|---|
| Louise Shipton | Tracy Hibbert | | |

## Diben y Polisi

Gall unigolion sy’n aflwyddiannus yn eu ceisiadau i gael eu hailraddio apelio yn erbyn y canlyniad, am rhesymau gweithdrefnol, a gofyn am adolygiad.

## Cwmpas

Mae’r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i’r holl staff a wnaeth gais am ailraddio a’u nod yw sicrhau y caiff pob aelod o’r staff y cyfle i apelio yn erbyn cais aflwyddiannus os ystyriant y bu eu cais o dan anfantais oherwydd methiannau gweithdrefnol.

## Cyfrifoldeb

Cyfrifoldeb y Prif Swyddog Pobl, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Lles, yw gweithredu, monitro ac adolygu'r polisi hwn ledled y Brifysgol.

DIG / Pennaethiaid Coleg / Penaethiaid yr Ysgolion a Phenaethiaid Gwasanaethau Proffesiynol sy'n gyfrifol am weithredu’r Polisi yn y Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol.

## Egwyddorion Craidd

- Caiff y staff sy'n gallu dangos y bu eu cais o dan anfantais, am resymau gweithdrefnol, apelio yn erbyn y penderfyniad cychwynnol.
- Bydd y Brifysgol yn gweithredu proses benderfynu deg i ddatrys apeliadau’r staff.

# GWEITHDREFN AR GYFER APELIADAU AIL RADDIO

## 1. AMSERLEN

Rhaid i unigolion sy’n gwneud cais am apêl gyflwyno eu hachos i Adnoddau Dynol o fewn 4 wythnos o dderbyn y canlyniad.

## 2. Y RHESYMAU DROS APELIO

Ni chaiff neb apelio onid ydynt yn credu:

- Na chafodd y weithdrefn y cytunwyd arni i ystyried ceisiadau am ail raddiadau ei gweithredu'n gywir.

## 3. Y WEITHDREFN YMGEISIO

Wrth wneud cais am adolygiad, rhaid i’r apelydd ddarparu datganiad sy’n amlygu’n glir y meysydd o’r gweithdrefnau ail raddiadau y cytunwyd arnynt nad ydynt yn credu y cawsant eu cymhwyso’n gywir i’w hachos, ynghyd â manylion ynghylch pam y credant fod hynny’n wir.

Ni chaniateir cyflwyno tystiolaeth newydd, heblaw am y rhesymau gweithdrefnol, fel rhan o'r apêl.

## 4. Y PANEL

Dylai’r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y Paneli fod mor agos at 50% gwrywaidd a 50% benywaidd ag sy’n rhesymol bosibl.

Bydd y Panel Apeliadau yn cael eu gwasanaethu gan Swyddog Adnoddau Dynol a chynorthwyir gan ddadansoddwr swyddi wedi ei hyfforddi. Fel arfer bydd y Panel yn cynnwys yr aelodau cymwys canlynol:

- Cadeirydd annibynnol (aelod lleyg o’r Cyngor, neu Gadeirydd arall y cytunir arno/arni)
- 1 cynrychiolydd priodol o’r Rheolwyr
- 1 cynrychiolydd o’r Undebau Llafur

Sylwer: Ni fydd y panel yn cynnwys unrhyw unigolion a fu'n aelodau o’r Panel Gwirio.

Ni fydd y Panel Apêl yn ceisio gwerthuso barn broffesiynol y Panel Gwirio ond bydd yn ystyried a gafodd y gweithdrefnau ail raddiadau y cytunwyd arnynt eu cymhwyso’n gywir.

Ni fydd y Panel Apêl yn ystyried unrhyw dystiolaeth newydd a gyflwynir gan yr apelydd y tu hwnt i'r rhesymau gweithdrefnol.

## 5. HYSBYSU YNGHYLCH Y CANLYNIAD/ADBORTH

Bydd yr Adnoddau Dynol yn ysgrifennu at yr ymgeiswyr i'w hysbysu ynghylch canlyniad yr apêl.

Os caiff yr apêl ei chadarnhau caiff eich achos ei gyfeirio at y panel cychwynnol a fydd yn asesu effaith y rheswm dros y penderfyniad ynghylch y canlyniad ailraddio cychwynnol.

## 6. DIOGELU DATA

Cedwir yr holl bapurau ac adroddiadau cefndir ar apeliadau ailraddio yn ganolog yn yr adran Adnoddau Dynol, yn unol â'r Rheoliad Ddiogelu Data Cyffredinol.

.

## APELIADAU AIL RADDIO - SIART LLIF Y BROSES

**Cyflwyno hysbysiad o Apêl i'r Adnoddau Dynol**

↓

**Y Panel Apêl i gyfarfod i ystyried apeliadau**

↓

**Yr Adnoddau Dynol i gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o'r canlyniad.**

↓

**Panel Gwirio i ailymgynnull i ystyried yr achosion a gadarnhawyd gan y Panel Apêl.**

↓

**Yr Adnoddau Dynol i gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o'r canlyniad terfynol**

↓

**Daw'r ceisiadau llwyddiannus i rym o 1 Ionawr 2024 (caiff y taliadau eu hôl-ddyddio)**